



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Cwrs Haf Dwys 2021

Cwrs Dysgu Cymraeg o bell 4 wythnos drwy Zoom

An intensive 4 week Learn Welsh summer course
held via Zoom **Awst 2-27 August 2021**



CYMR
AEG

Dysgu
Learn



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



PRIFYSGOL

ABERYSTWYTH
UNIVERSITY

Pa lefel? What level?

Grŵp 1 Mynediad Entry

Grwp i ddechreuwyr pur, gyda'r pwyslais ar sgwrsio yn Gymraeg. Bydd dysgwyr yn dysgu patrymau iaith safonol, a sut i gynnal sgwrs sylfaenol yn yr amser presennol a'r gorffennol.

A group for complete beginners, with the emphasis on conversational Welsh. Students will learn basic language patterns and how to hold a basic conversation in Welsh in both the present and past tenses.

Grŵp 2 Sylfaen Foundation

Ar gyfer dysgwyr sydd eisoes wedi cwblhau lefel Mynediad, neu sydd â dealltwriaeth sylfaenol o batrymau iaith - cwrs i gryfhau sgiliau siarad.

For learners who have completed Entry level (Mynediad) or have an understanding of basic language patterns - a course to improve your Welsh speaking skills.

Grŵp 3 Canolradd Intermediate

Addas i unigolion sydd wedi cwblhau lefelau Mynediad a Sylfaen, neu yn gallu cynnal sgwrs yn Gymraeg am bethau bob dydd. Ar y siarad mae'r pwyslais, ond bydd mwy o ddarllen, ysgrifennu a gwrando yn cael eu cyflwyno.

For those who have completed both the Mynediad & Sylfaen levels, or if you're happy to hold an everyday conversation in Welsh. The emphasis continues on conversational Welsh, but some more writing, reading and listening will be introduced.

Grŵp 4 Uwch 1

Cwrs i godi hyder i sgwrsio ac ysgrifennu yn Gymraeg am wahanol destunau mewn mwy o ddyfnder, gan adolygu patrymau a phwyntiau gramadegol. Cyflwynir darnau darllen, gwyliau a gwrando sy'n dod o lyfrau neu gylchgronau Cymraeg, ac o raglenni radio a theledu.

Grŵp 5 Uwch 2

I ddysgwyr profiadol neu siaradwyr iaith gyntaf allu datblygu sgiliau mynegi ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan adeiladu ar y Cwrs Uwch 1. Dysgir patrymau newydd a bydd darnau darllen, gwyliau a gwrando sy'n dod o lyfrau neu gylchgronau, ac o raglenni radio a theledu. Yn y modd hwn plethir gloywi ac astudio'r iaith yn ei chyd-destun diwylliannol a chymdeithasol.

Grŵp 6 Uwch 3

Cwrs i ddysgwyr profiadol neu siaradwyr iaith gyntaf ddatblygu eu sgiliau llafar ac ysgrifenedig i'r eithaf. Dysgir ffurfiâu Cymraeg ffurfiol ynghyd â ffurfiâu mwy sgwrsiol - drwy ddarllen, gwyliau a gwrando (llyfrau, cylchgronau, rhaglenni radio a theledu). Mae adran **Gwybodaeth o Iaith** ym mhob uned yn ogystal ag adrannau cefndir sy'n trafod y Gymru gyfoes neu bwnc hanesyddol.

Grŵp Cymraeg Proffesiynol

Cwrs 5 diwrnod (2-6 Awst 2021) ar gyfer siaradwyr rhugl, iddynt wella eu sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu yn y Gymraeg a magu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith neu'r gymuned.

Taflein y Cwrs Proffesiynol 2021

Strwythur y Cwrs Course structure

Byddwn yn cynnig dosbarthiadau ar bob lefel a addysgir gan diwtoriaid hynod o brofiadol ac ymroddgar. Bydd ffurf safonol o Gymraeg, gyda gogwydd deheuol, yn cael ei dysgu.

Bydd hwn yn gwrs **dysgu cyflym**, a byddwch yn cwblhau lefel gyfan os byddwch yn ymuno â ni am fis. Bydd sesiynau dysgu ar Zoom bob dydd, a byddwn yn gosod gwaith dysgu personol i chi am tua dwy awr bob dydd, e.e. darnau darllen, tasgau ysgrifennu, tasgau gwrandio a thasgau ar-lein.

We'll offer classes at all levels taught by highly experienced and dedicated tutors. A standard form of Welsh, with a southern slant, will be taught.

This is a **fast paced** course, and we will take you through an entire level if you join us for four weeks. You will take part in sessions taught on Zoom every day, and we will set personal learning tasks for about two hours a day, e.g. reading, writing and listening tasks and online exercises.

09:00 - 10:30, 11:30 - 13:00 & 15:30 - 17:00	Sesiynau dysgu gyda thiwtor ar Zoom	Taught sessions on Zoom with a tutor
Prynhawn Afternoons	Dysgu personol, a chyfle i gael cymorth gan y thiwtor drwy ebost neu Zoom.	Personal learning, and the opportunity for support from your tutor via email or Zoom.
Gyda'r nos Evenings	Gweithgaredd anffurfiol ar Zoom ddwy noson yr wythnos	Informal activity on Zoom on two evenings every week

Bydd dosbarthiadau yn cael eu dysgu drwy gyfrwng yr ap fideogynadledda Zoom, llwyfan dibynadwy a diogel y mae gennym brofiad o'i ddefnyddio ar gyfer addysgu o bell.

Bydd canllawiau a chymorth i ddefnyddio Zoom ar gael i chi os bydd ei angen.

Classes will be taught via the video conferencing app Zoom, a safe and reliable platform which we are familiar with using for teaching at a distance.

Guidance and support to use Zoom will be available for you, if required.



Gweithgareddau Extra Learning

Bydd cyfle i chi gymryd rhan mewn gweithgareddau anffurfiol ar Zoom ddwy noson bob wythnos, er mwyn cael dipyn o hwyl, ymarfer siarad Cymraeg, a chael blas ar fywyd a diwylliant Cymraeg.

You will have an opportunity to take part in informal activities on Zoom two evenings every week, to have some fun, informal Welsh practice and a taste of Welsh life and culture.

Cwrslyfrau Coursebooks

Mae'r cwrslyfrau ar gael ar gyfer pob lefel. Mae modd lawrlwytho'r rhain yn rhad ac am ddim, neu eu harchebu am £10 drwy gwales.com neu eich siop lyfrau leol. Daw arweiniad pellach am hyn yn dilyn eich cofrestrriad.

Coursebooks are available for each level. These can be downloaded free of charge, or ordered for £10 via gwales.com or your local Welsh language bookstore. Further guidance will follow following your registration.

Pryd a faint? Length and cost?

	Wythnos 1 2-6 Awst 2021	Wythnos 2 9-13 Awst	Wythnos 3 16-20 Awst	Wythnos 4 23-27 Awst
Mynediad 1	£90 →			
Mynediad 2			£90 →	
Mynediad 1 a 2	£90 →			
Sylfaen 1	£90 →			
Sylfaen 2			£90 →	
Sylfaen 1 a 2	£90 →			
Canolradd 1	£90 →			
Canolradd 2			£90 →	
Canolradd 1 a 2	£90 →			
Uwch (1,2 neu 3)	£90 →			
Uwch (1,2 neu 3)			£90 →	
Uwch (1,2 neu 3)	£90 →			
Cymraeg Proffesiynol	£90 →			

Gostyngiadau Discounts

Cynigir gostyngiad o 40% i bensiynwyr sy'n derbyn credyd pensiwn, myfyrwyr llawn amser ac unigolion sy'n hawlio budd-daliadau a lwfans cyflogaeth.

A 40% discount is available for pensioners who claim pension credit, full time students and those on benefits and employment support.

Cymorth Ariannol

Mae **cymorth ariannol** ar gael i unigolion sy'n wynebu caledi ariannol gyda chostau fel gofal plant neu adnoddau/dyfeisiau digidol. Nid oes modd hawlio am ffioedd cwrws.

Financial Support

Financial support is available for those who face financial hardship with costs such as childcare or digital resources/ devices. Course fees cannot be claimed for.

Sut i gofrestru a thalu How do I register and pay?

Mynegwch eich diddordeb drwy gwblhau'r ffurflen ar-lein isod ar y lefel sy'n addas i chi cyn

25 Mehefin 2021:

Register your interest by completing the appropriate level on-line form (listed below) before **25 June 2021**:

[Ffurflen Mynediad Form](#)

[Ffurflen Sylfaen Form](#)

[Ffurflen Canolradd Form](#)

[Ffurflen Uwch 1 Form](#)

[Ffurflen Uwch 2 Form](#)

[Ffurflen Uwch 3 Form](#)

[Ffurflen Cymraeg Proffesiynol Form](#) **Llawn | Course is full**

Ar ôl i chi fynegi eich diddordeb, byddwn yn cysylltu â chi. Mae lle yn gyfyngedig ar bob cwrs, felly nid yw mynegi diddordeb yn sicrhau lle. Ar ôl i ni asesu eich cais, byddwn yn gofyn am daliad o £90/£54 (ar-lein neu gyda cherdyn credyd). **Taliad sydd yn sicrhau eich lle ar y cwrs.**

Once you have registered your interest, we shall be in contact with you. Please note that places are limited on each course, so expressing an interest does not ensure a place. Once we have assessed your application, we shall ask for a £90/£54 payment (online or via credit card). **Payment ensures your place on the course.**

Cysylltu â ni Contact us

Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys Sir Gâr
dysgucymraeg@aber.ac.uk | learnwelsh@aber.ac.uk
0800 876 6975

Cysylltu â ni ar ebost fyddai orau, a byddwn yn ymateb o fewn un diwrnod gwaith.

The best way to contact us is via email - we will respond within one working day.



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire



Dysgu Learn

